- **Wedi cael digon ar gelwyddau noeth y gwleidyddion, busnes mawr a'r cyfryngau?**
- **Wedi cael digon ar fyd lle mae elw corfforaethol yn dod cyn bywyd ac urddas?**
- **Am weld diwedd i fwydo'r peiriant pres di-feddwl?**
- **Am helpu achub y planed?**

Dyma'r digwyddiad i chi! Darllenwch ymlaen...

Mae mudiad **Y Ddaear yn Gyntaf!** yn trefnu mewn modd heb arweinwyr ac yn defnyddion gweithredu uniongyrchol i herio'r grymoedd sy'n arwain ein planed a'n pobl i bwll di-waelod. Mae'r Digwyddiad Haf 2006 yn gyfle i ni dreulio pum diwrnod gyda phobl tebyg ym mhrydferthwch gwledig Cymru yn rhannu syniadau, dysgu sgiliau newydd, cynllunio at y dyfodol a chael HWYL!

Be sy mlaen?: Bydd sesiynau eleni yn cynnwys amrywiaeth o sgiliau ymarferol ac ymgyrchoedd. Os gallwch gynnal neu helpu gydag un cysylltwch a: **efgatheringworkshops@aktivix.org.**

Bydd sesiynau'n cael eu rhestru ar y wefan ond eisioes mae ganddom rai ar blant, hunan-amddiffyniad, dringo, cymorth cyntaf gweithredol, Faslane 365, ymestyn ffyrdd a meysydd awyr, sefydlu sgwat, mentrau cydweithredol tai neu canolfannau cymdeithasol, trefnu gweithredoedd ac ymgyrchoedd a thactegau blocad. Bydd rhai sesiynau yn cysylltu a'r Gwersyll Hinsawdd sy'n digwydd yn hwyrach ym mis Awst: **www.climatecamp.org.uk.**

Adnoddau: Bydd pabell groeso, bwyd figan gan y Tebot Anarchaidd, caffi gan Veggies, lle i blant a phobl ifainc, llyfrgell ddarllen, lle i hoywon a merched, toiledau tomen, gwasanaeth cymorth cyntaf a lle gwella. Bydd *Re-pressed* yn rhedeg stondin lyfrau a phamffledi. Does dim croeso i stondinau masnachol ond cofiwch ddod a gwybodaeth am eich grwp, ymgyrch neu ddigwyddiad.

Cyrraedd: Bydd y gorsafoedd tren agosaf ar y wefan o leiaf mis cyn y Digwyddiad a bydd yr union safle, map ac amseroedd bysiau yn cael eu cyhoeddi yr wythnos gynt. Er mwyn cael manylion yn y post, danfonwch amlen hunan-gyfeiriedig gyda stamp dosbarth cyntaf wedi ei farcio MAP Y DIGWYDDIAD at y cyfeiriad ar y dudalen gefn. Byddwn yn postio er mwyn iddo gyrraedd ar Awst 9fed. Fel arall, edrychwch ar y wefan o'r dyddiad hwnnw. Byddwn yn trefnu pas i bobl o'r orsaf dren agosaf i unrhywun sy'n methu defnyddio'r bws ond bydd angen digon o amser i drefnu hwn.

Cyrraedd a gadael: Mae'r sesiwn gyntaf yn cychwyn am 1pm ar Ddydd Mercher, 16 Awst felly'r bwriad i'r rhai sydd am fod yma drwy'r Digwyddiad i gyd yw cyrraedd nos Fawrth y 15fed. Bydd y giat ar agor o ganol dydd. Bydd y sesiwn olaf yn darfod tua 6pm ar nos Sul yr 20fed.

Sefydlu a thacluso: Os gallwch helpu codi neu tacluso'r safle am ychydig o ddyddiau o flaen llaw a/neu wedi'r Digwyddiad, rhowch wybod mor fuan ag sy'n bosib.

Mae pawb yn rhan o'r criw safle - gan gynnwys ti! Mae na lwyth o bethau angen eu gwneud fel torri llysiau, adloniant i bobl ifainc, helpu ar y giat, llnau'r toiledau ac ati. Mae helpu fel hyn yn ffordd dda i gyfarfod pobl newydd a dysgu sut i wneud pethau newydd. Dewch yn barod i wirfoddoli. Gallwch wneud y gwaith pan wnewch chi gyrraedd ond gallwch hefyd helpu o flaen llaw. Edrychwch ar y wefan am fwy o wybodaeth. Mae bod yn rhan o'r gwersyll yn golygu edrych allan am bobl eraill. Bydd pobl o gwmpas i helpu gydag unrhyw broblemau sy'n codi.

Gwersylla: Dim ond gwersylla sydd ar y safle, felly dewch yn barod. Mae llefydd i ferched a hoywon ar gael a lle tawel. I bobl sy'n methu gwersylla, bydd na le cyfyng ar gyfer faniau ac ati. Peidiwch â chyrraedd yn eich fan neu fws heb roi gwybod i ni o flaen llaw - rhaid bwcio lle.

Beth i ddod: Bydd angen pabell, dillad cynnes sych a sgidiau cryfion. Bydd angen pres at y giat a bwyd onibai eich bod chi'n bwydo'ch hunain. Dewch a ffotogopiau o unrhyw wybodaeth o ddiddordeb i eraill am yr hyn rydych yn ei wneud.

Mynediad: Y bwriad yw gwneud hwn yn Ddigwyddiad cynhwysol ac agored i bawb. Mae'r safle'n eitha gwastad, er ei fod yn gae, a bydd toiled gyda hoist a lle molchi syml yn ogystal a lle i bweru cadeiriau olwyn trydan. Os ydych chi neu unrhyw blentyn efo chi ag anghenion arbennig, rhowch digon o amser i ni baratoi. Mae mwy o wybodaeth ar y wefan.